Statws *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
Newidiadau i ddeddfwriaeth: *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 No. 1264

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

PROSPECTIVE

RHAN 15

Gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau

Cofnodion

59.—(1) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gadw a chynnal y cofnodion a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 2 mewn cysylltiad â phob man y darperir y gwasanaeth ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef.

(2) Pan fo'r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel neu wasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, rhaid i'r darparwr gwasanaeth hefyd gadw a chynnal y cofnodion a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 2 mewn cysylltiad â phob man y darperir y gwasanaeth hwnnw ynddo.

(3) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth—

(a) sicrhau bod cofnodion sy'n ymwneud ag unigolion yn gywir ac yn gyfredol;

(b) cadw pob cofnod yn ddiogel;

(c) gwneud trefniadau er mwyn i'r cofnodion barhau i gael eu cadw'n ddiogel os bydd y gwasanaeth yn cau;

(d) yn achos cofnodion am blentyn sy'n cael ei letya mewn gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant, sicrhau bod y cofnodion yn cael eu dosbarthu i'r awdurdod lleoli pan fo'r gwasanaeth yn peidio â chael ei ddarparu mewn cysylltiad â'r plentyn y mae'r cofnodion yn ymwneud ag ef;

(e) gwneud y cofnodion ar gael i'r rheoleiddiwr gwasanaethau ar gais;

(f) cadw cofnodion sy'n ymwneud ag oedolion am dair blynedd o ddyddiad y cofnod diwethaf;

(g) cadw cofnodion sy'n ymwneud â phlant am bymtheng mlynedd o ddyddiad y cofnod diwethaf, oni bai bod y cofnodion yn cael eu dychwelyd i'r awdurdod lleoli yn unol ag is-baragraff (d);

(h) sicrhau bod unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth—

(i) yn gallu cael mynediad i'w cofnodion; a

(ii) yn cael eu gwneud yn ymwybodol eu bod yn gallu cael mynediad i'w cofnodion.

Gwybodaeth Cychwyn

I1 Rhl. 59 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Statws
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

Changes and effects yet to be applied to :

– reg. 59 coming into force by S.I. 2017/1264 reg. 1(2)

Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

– reg. 3(1)(h)(i) inserted by S.I. 2019/757 reg. 5(b)
– reg. 35(8A)(a)(iv) inserted by S.I. 2022/832 reg. 3(c)(iii)